

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Wener**, 23ain Hydref, 2020, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)

Y Cyngorydd Dylan Parry Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cyngorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams

Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

Ymddiheuriad: Y Cyngorydd Ifor Owen

MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG

Croesawodd y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod a drefnwyd ar fyr rybudd yn dilyn y sylwadau oedd ar y cyfryngau cymdeithasol dros y Sul yn dilyn ymddangosiad o hysbyseb uniaith Saesneg (yn cynnwys y geiriad) gan Feddygfa Rhydbach, Botwnnog, am Feddyg.

Yn dilyn trafodaethau penderfynwyd mai peth doethaf fyddai i geisio cael cyfarfod gyda Dr. Gwyn Morris fel y gallai roi gwybodaeth ehangach i'r aelodau yn union beth oedd yn cymeryd lle, a gwahoddwyd ef i ymuno yn y cyfarfod hwn chwarter awr yn ddiweddarach o ddechrau'r cyfarfod.

Cyn i Dr. Morris ymuno rhoddodd y Gadeiryddes fraslun o'r hyn fyddai'n hoffi roi drosodd iddo, sef yr angen i bwysleisio pa mor wethfawr yw'r gwasanaeth a gynigir ganddynt yn Meddygfa Rhydbach a hynny yn arbennig felly yn ystod y cyfnod anodd rydym i gyd yn wynebu. Hoffai hefyd ddatgan y pwysigrwydd, os yn bosibl, o gael siaradwr Cymraeg fel Meddyg i'r Feddygfa fel fod pob claf yn cael cyfathrebu yn eu mam iaith.

Hoffai aelod arall ofyn i Dr. Morris a modd i gynrychiolydd o'r Gymuned fod yn rhan o'r broses cyfweld fel y gallai'r darpar ymgeiswyr gael y teimlad o fod yn rhan o ddiwylliant cefn gwlad Llyn.

Tynnodd aelod arall sylw at bolisi iaith Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr dyddiedig 30ain Mai, 2019 sef:

"Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) wedi ymrwymo i gydymffurfio gyda'r [Safonau'r Iaith Gymraeg](#) sy'n dod i rym ar 30 Mai 2019. Mae'r Safonau yma yn gosod disgwyliadau pendant ar y CICGC i gynnig gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ac i hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau." Mae'r hyblygrwydd o allu cyfathrebu yn y fam iaith yn hanfodol yng nghefn gwlad Llyn, yn enwedig pan yn delio gyda phlant a phobl hŷn.

Cyn i'r Meddyg ddod ymlaen yn y cyfarfod pwysleisiodd y Gadeiryddes ei bod yn hanfodol fod y neges yn cael ei roi drosodd yn berffaith glir fod y Cyngor yn barod i gyd-weithio gyda'r Feddygfa ac yn barod i'w helpu mewn unrhyw fodd posibl.

Ymunodd Dr. Gwyn Morris â'r cyfarfod a chroesawodd y Gadeiryddes ef a diolch iddo am roi o'i amser i drafod y mater pwysig yma.

Ymddiheurodd Dr. Morris am y rwystredigaeth a grewyd gyda'r hysbyseb uniaith Saesneg ond bellach mae'r cyfryw wedi ei ail-eirio a chyfeithiad Cymraeg yn cael ei baratoi. Yn anffodus nid oedd yn bosibl newid yr hysbyseb ar gyfer y cylchgrawn BMJ yr wythnos ddilynol oherwydd ei yn y broses o gael ei argraffu ond byddai'r hysbyseb newydd yn ymddangos yn y cylchgrawn arlein a'r wythnos ddilynol yn y cylchgrawn.

Dywedodd ei bod am fod yn argyfyngus ym Meddygfa Rhydbach os na ellir penodi Meddyg yn fuan gan fod un o'r Meddygon yn ymddeol ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf. 'Roedd cysylltiad wedi ei wneud gyda rhai Meddygon oedd yn hyfforddi er ceisio eu denu i Ben Llyn ond yn anffodus nid oeddynt eisiau symud.

Aeth ymlaen i ddweud fod ardal Machynlleth wedi derbyn wyth yn ymgeisio am swydd Meddyg yn ddiweddar, a'r gobaith yw fod Meddygon eraill eisiau dod o'r dinasoedd mawrion i gefn gwlad oherwydd yr argyfwng cenedlaethol sydd yn bodoli oherwydd COVID-19.

Pwysleisiodd er gwneud yn siwr fod y gwasanaeth a gynigir yn Rhydbach yn gallu parhau i'r safon gorau posibl ei fod yn angenrheidiol gallu penodi Meddyg arall i'r practis boed yn Gymraeg neu Saesneg yr iaith. Aeth ymlaen i ddweud ei fod ef yn gweld 70/75% o'r cleifion Cymraeg eu hiaith.

Soniwyd am geisio annog Meddyg newydd (os yn ddi-Gymraeg) i geisio dysgu'r iaith ac efallai gallai'r Cyngor Cymuned chwarae rhan yn hyn o beth drwy eu croesawu i'r diwylliant Cymraeg.

Awgrymodd aelod arall a oedd yna bosibilrwydd i aelod o'r Cyngor fod ar y panel cyfweld er rhoddi ochr y diwylliant Cymraeg i'r darpar ymgeisydd – dywedodd Dr. Morris na allai roi sylw ar hyn gan y byddai'n rhaid iddo drafod y mater gyda Dr. Haque a Mr. Dave Smith, y Rheolwr.

Anogodd aelod o'r Cyngor i Dr. Morris gadw mewn cof fod angen gallu cyfathrebu yn y fam iaith yn enwedig pan yn dod at blentyn neu claf gyda'r clefyd dementia er enghraifft. Atebodd Dr. Morris ei fod yn ymwybodol o hyn ond gan amlaf fod person gyda'r chlaf a dementia (er enghraifft) a hynny'n benodol felly gyda phlentyn, gyda oedolyn a oedd yn gallu cyfieithu os oedd angen.

Yn dilyn trafodaeth fuddiol diolchwyd i Dr. Morris am ei amser ac am ddod atom i drafod mater mor bwysig i gleifion Meddygfa Rhydbach. Gwerthfawrogwyd fod yr hysbyseb bellach wedi ei newid ac fod cyfieithiad Cymraeg yn cael ei baratoi. Pwysleisiodd y Gadeiryddes unwaith yn rhagor fod y Cyngor Cymdeithas yn awyddus i gyd-weithio gyda'r Feddygfa ac yn barod iawn i'w cefnogi mewn unrhyw fodd bosibl yn y dyfodol.